**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023 am 5.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Ashford | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd R Davis |
| Y Cynghorydd E L Dunning | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd H Gronow | Y Cynghorydd B Harris |
| Y Cynghorydd S Hickman | Y Cynghorydd W Hughes |
| Y Cynghorydd G O Jones | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd C Lisles |
| Y Cynghorydd M Maohoub | Y Cynghorydd A Morgan OBE |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd M Norris |
| Y Cynghorydd D Parkin | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd C Preedy | Y Cynghorydd L A Tomkinson |
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd M Webber | |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd B Stephens |
| Y Cynghorydd L Addiscott | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd J Cook | Y Cynghorydd S J Davies |
| Y Cynghorydd A Dennis | Y Cynghorydd V Dunn |
| Y Cynghorydd A J Ellis | Y Cynghorydd L Ellis |
| Y Cynghorydd D Evans | Y Cynghorydd P Evans |
| Y Cynghorydd R Evans | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd C Middle | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd N H Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd Owen-Jones | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts MBE | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd G L Warren |
| Y Cynghorydd K Webb | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd G E Williams | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd D Wood |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Cyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd

### Ymddiheuriadu am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P Binning | Y Cynghorydd S.Evans |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd S Powderhill |

**80 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P Binning, Sera Evans, G Hopkins a S Powderhill.

**81 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda a chafodd datganiadau o fuddiant eu gwneud ynglŷn ag eitemau 5 ac 9 a 10B ar yr agenda yn ddiweddarach yn y cyfarfod (Cofnodion 84, 89 a 90 (B)):

**Eitem 8 ar yr agenda – Penderfyniad Treth y Cyngor 2023/24**

Y Cynghorydd L Tomkinson – “Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Tref Pontypridd.”

Y Cynghorydd M Powell – “Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Tref Pontypridd.”

Y Cynghorydd S Trask – “Rydw i’n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref”

Y Cynghorydd B Harris – “Rydw i’n Aelod o Banel Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru.”

Y Cynghorydd W Owen – “Rydw i’n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Pont-y-clun”

Y Cynghorydd J Brencher – “Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Tref Pontypridd.”

Y Cynghorydd S Bradwick – “Fi yw Cadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru”

Y Cynghorydd G Holmes – “ Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llantrisant ac yn aelod o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru”

Y Cynghorydd L Addiscott – Personol – “Rydw i'n Aelod o Banel Heddlu a Throsedd De Cymru.”

Y Cynghorydd J Bonetto – “Rydw i’n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Ffynnon

Taf a Nantgarw"

Y Cynghorydd G Stacey – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref"

Y Cynghorydd D Wood – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Tref Pontypridd."

Y Cynghorydd D Grehan – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Tonyrefail"

Y Cynghorydd K Johnson – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref"

Y Cynghorydd P Evans – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed y Cwm"

Y Cynghorydd G Jones – "Mae gen i berthynas agos sy'n cael ei gyflogi gan Heddlu De Cymru"

Y Cynghorydd J Turner – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llanharan"

Y Cynghorydd H Gronow – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Tref Pontypridd."

Y Cynghorydd C Lisles – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Tref Pontypridd."

Y Cynghorydd A Ellis - "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Ynys-y-bwl a Choed y Cwm"

Y Cynghorydd D Owen-Jones - "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Tonyrefail"

Y Cynghorydd J Smith – "Mae fy mhartner yn gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru"

Y Cynghorydd A Roberts MBE – "Rydw i'n aelod o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru"

Y Cynghorydd D Evans – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llanharan"

Y Cynghorydd G Warren – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref"

Y Cynghorydd R Bevan – "Mae gen i aelod o'r teulu sy'n cael ei gyflogi gan Heddlu De Cymru"

Y Cynghorydd B Stephens – "Rydw i'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Llanharan"

Cafodd y datganiadau canlynol eu gwneud yn ddiweddarach yn y cyfarfod (cofnodion 84, 88 a 90B)

**Eitem 5 ar yr agenda – Cwestiynau'r Aelodau**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards - "Cyfeirir at fy nghyflogwr yn ymateb yr Aelod o' Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant (cwestiwn 4)"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson – "Cyfeirir at fy nghyflogwr, Trafnidiaeth

Cymru, yn y cwestiwn ategol (cwestiwn 2, diweddariad ar y Metro)"

**Eitem 9 ar yr agenda – Rhaglen Gyfalaf**

Y Cynghorydd S Trask – "Rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Maes-y-bryn, sy'n derbyn cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif"

Y Cynghorydd K Johnson – "Rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Maes-y-bryn, sy'n derbyn cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif"

**Eitem 10B ar yr agenda – Rhybudd o Gynnig**

Y Cynghorydd M Powell – "Rydw i'n gwneud gwaith i asiantaethau sydd ag eiddo rhent preifat ar eu llyfrau"

Y Cynghorydd M Powell – "Mae gen i berthynas agos sy'n landlord ar eiddo rhent preifat"

Y Cynghorydd L Addiscott – " Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat"

Y Cynghorydd V Dunn – "Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat"

Y Cynghorydd C Middle – "Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat"

Y Cynghorydd M Ashford – "Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat"

Y Cynghorydd W Hughes – "Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat"

Y Cynghorydd A Crimmings – "Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat"

Y Cynghorydd R Williams – "Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat"

**82 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hybrid o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022 ac 18 Ionawr 2023 yn rhai cywir.

**83 Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Cyhoeddodd Dirprwy Arweinydd y Fwrdeistref Sirol, y Cynghorydd M Webber, ei bod hi wedi cymryd rhan mewn achlysur ac wedi gwneud araith ar ran yr Awdurdod Lleol yn rhan o Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Cyfeiriodd y Cynghorydd Webber at y nifer helaeth o fenywod sy'n cynrychioli'r Cyngor yn wleidyddol ac yn gweithio yn y sefydliad, gan nodi ymrwymiad y Cyngor i barhau i annog a chefnogi cynrychiolaeth bellach i fenywod.

- Talodd Arweinydd yr Wrthblaid, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan, deyrnged i'r diweddar gyn-Gynghorydd ar ran Ynys-y-bwl, Brian Arnold. Cafodd ei ethol yn Gynghorydd Cymuned am y tro cyntaf yn 1986, cyn cael ei ethol yn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol yn 1999, gan

gadw'i sedd nes iddo roi’r gorau i’w swydd yn 2012. Roedd yn Gadeirydd Cyngor RhCT yn 2003 a chododd fwy na £30k ar gyfer ei elusennau dewisol. Roedd yn gwbl ymroddedig i'w gymuned yn Ynys-y-bwl ac i Blaid Cymru.

- Estynnodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher wahoddiad i’r holl Aelodau i achlysur a gynhelir gan Gyngor Tref Pontypridd ddydd Sadwrn, 11 Mawrth am 12pm i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched.

**84 Cwestiynau Gan y Cynghorwyr**

**1) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Emanuel i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

*“A oes modd i'r Arweinydd roi diweddariad ar ymateb y Cyngor i ddigwyddiadau tywydd gaeafol?”*

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod cyfnod gaeaf y Cyngor yn ymestyn rhwng mis Hydref a mis Ebrill bob blwyddyn gyda'r cyfnod craidd rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth. Yn ystod y cyfnod yma, caiff criwiau ychwanegol a chriwiau gyda'r nos eu rhannu'n ddwy shifft, sy'n sicrhau bod modd ateb y galw yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau gwaith arferol. Ar adegau mwy tawel pan nad oes angen graeanu, mae'r criwiau yn cyflawni gwaith meysydd eraill megis cynnal a chadw cwteri cyffredinol neu atgyweirio ffensys ar briffyrdd gyda'r nos pan fyddan nhw'n llai prysur.

Eglurodd yr Arweinydd fod y rhwydwaith graeanu rhagofalus (PSN) yn graeanu'n barhaus drwy'r nos o 10pm gyda newid sifft am 6am, ac y bydd y gwaith yma'n parhau trwy gydol y dydd eto oherwydd yr eira. Mae nifer o beiriannau graeanu 4 x 4 llai, sydd ag erydr eira, yn cael eu defnyddio i gael mynediad i'r lonydd cul a'u graeanu. Caiff meysydd parcio cyhoeddus a thir ysgol mwy eu cadw mor glir â phosibl.

Dywedodd yr Arweinydd fod gan y Cyngor gynllun cynnal a chadw trylwyr i fynd i'r afael â thywydd oer, Serch hynny pwysleisiodd, er bod criwiau'n gwneud eu gorau i gadw'r ffyrdd mynydd ar agor gyda graeanu parhaus, y gallai cerbydau mwy fod yn beryglus i'w defnyddio pan fo'r tywydd yn ddifrifol wael. Dywedodd fod y penderfyniad wedi’i wneud yn gynharach heddiw yn ystod y tywydd anodd i roi’r gorau i ddefnyddio’r erydr ar y mynydd er mwyn cadw staff yn ddiogel, gan adolygu'r sefyllfa yfory.

Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau bod modd bwrw golwg ar gynllun gaeaf y Cyngor ar
wefan y Cyngor, a chroesawodd unrhyw ymholiadau neu gwestiynau, yn enwedig gan Aelodau newydd eu hethol sy'n dymuno rhannu gwybodaeth â'u trigolion lleol.

Dywedodd hefyd fod modd
i'r Aelodau gyflwyno unrhyw ymholiadau yn uniongyrchol i'r swyddogion pe hoffen nhw wneud hynny.

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd S Emanuel**

“A oes modd i chi amlinellu’r broses ar gyfer clirio’r ffyrdd mynydd, yn enwedig ar fynydd y Rhigos?”

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd mai penderfyniad gweithredol yw hyn, ac ychwanegodd fod y Cyngor bob amser yn blaenoriaethu'r llwybrau strategol yma. Weithiau, does dim modd graeanu a chlirio'r ffyrdd yn ddigon cyson i'w gwneud nhw'n ddiogel. Erbyn i'r gweithwyr gyrraedd diwedd y ffordd, mae'r pen arall wedi'i orchuddio ag eira unwaith eto. Yn y gorffennol pan fo'r amodau wedi bod yn ddifrifol, a pheiriannau erydr wedi'u difrodi, bydd y Cyngor yn defnyddio peiriannau JCB a pheiriannau eraill i gynnal a chadw'r priffyrdd.

Ategodd yr Arweinydd, pe bai angen rhagor o wybodaeth benodol ar yr Aelodau, byddai'r depos yn gallu darparu hynny ar eu cyfer.

**2) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Morgans i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

“*A oes modd yr Arweinydd wneud datganiad ar y cyhoeddiad i dreialu teithio ar fysiau am ddim yn ddiweddar?”*

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol, a bod bysiau'n brysurach wrth i drigolion fanteisio ar y teithiau bws am ddim. Eglurodd fod y cyllid yma wedi dod i law gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, ac mae'r amodau cyllido yn golygu bod yn rhaid defnyddio'r cyllid cyn diwedd mis Mawrth 2023. Mae cyfnodau prawf a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol eraill yn nodi y bu cynnydd o 30% yn y defnydd gan deithwyr, sy’n helpu i wneud gwasanaethau bysiau yn fwy cynaliadwy. Unwaith y bydd y cynllun wedi dod i ben, bydd yr effaith yn cael ei asesu, ac adborth yn cael ei ystyried cyn i'r Cyngor ystyried gwneud rhywbeth tebyg yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae cyllid gwerth £1.1 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a £1.2 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Os yw'r cyfnod prawf yma'n llwyddiannus, mae'n bosibl y bydd cynllun tebyg yn cael ei roi ar waith ym mis Rhagfyr i gefnogi trefi dros y Nadolig.

Nododd yr Arweinydd fod y cyfnod prawf yma'n rhoi cymorth i drigolion o ran yr argyfwng costau byw, a'i fod yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Dywedodd mai'r gobaith yw annog trigolion i ddefnyddio llai ar eu ceir a chefnogi'r rhwydwaith a'r diwydiant bysiau.

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd S Morgans:**

“A oes modd i'r Arweinydd roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y Metro?”

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Metro yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r llinellau yng Nghwm Cynon yn cael eu gosod ym mis Gorffennaf eleni gyda threnau newydd yn cael eu treialu ar hyd llinellau Cwm Cynon gyda'r nos i sicrhau eu bod yn rhedeg yn ddidrafferth

Dywedodd fod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd o ran trydaneiddio yn y Rhondda a bydd llawer o aflonyddwch yn anochel. Yn wyneb hyn, awgrymodd yr Arweinydd y dylid cynnal sesiwn wybodaeth gyda chwmni Trafnidiaeth Cymru, a fyddai’n agored i’r holl Aelodau ond yn arbennig o berthnasol i Aelodau yng Nghwm Rhondda, er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd y Metro’n cael ei gyflwyno. I gloi, dywedodd yr Arweinydd fod nifer o drigolion, yn enwedig y rheiny sy'n defnyddio trenau bob dydd, yn edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu'r Metro.

**3) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

“*A oes modd i'r Arweinydd wneud datganiad ar Gynlluniau Lliniaru Llifogydd presennol ac arfaethedig ledled y Fwrdeistref Sirol?”*

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod yr Awdurdod Lleol wedi rhoi mwy na 100 o gynlluniau ar waith ers Storm Dennis yn 2020, digwyddiad sy'n feincnod am ei fod yn un o'r achosion gwaethaf o lifogydd yn y Fwrdeistref Sirol ers mwy na 40 mlynedd.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi buddsoddi mwy na £20 miliwn mewn uwchraddio ceuffosydd hyd yma, ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno ceisiadau gwerth £7.5 miliwn i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, gyda'r Cyngor yn rhoi arian i gyfateb i 15% o'r cyllid. Cyfeiriodd at y cyllid gan Gronfa Ffyrdd Cydnerth a oedd yn cyfateb i £10 miliwn dros y tair blynedd diwethaf, sy'n gwella draeniad priffyrdd ac o ganlyniad yn cefnogi eiddo ar hyd y briffordd sydd hefyd yn dioddef llifogydd.

Amlinellodd yr Arweinydd y cynlluniau penodol yn Wattstown:

- Teras y Waun – Gwaith adeiladu wedi ei gwblhau (£230k)
- Heol Llanwynno - Gwaith Dylunio ac Adeiladu (uwchraddio'r gilfach) i'w Gwblhau Ebrill 2023 (£70k)
- Teras Arfryn – Dywedodd yr Arweinydd fod tri chynllun ar y gweill yn

yr ardal yma:

- Dyluniad Rhagarweiniol - i'w gwblhau ym mis Ebrill 2023 (£20k)
- Achos busnes amlinellol - Gwaith Dylunio Manwl a Datblygu (£150k)

- Cynllun llifogydd bach gwerth (£175k) yn amodol ar sicrhau'r cyllid, bydd y cynllun yma'n yn caniatáu mwy o gydnerthedd a diogelwch i eiddo lleol ac yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol gyflwyno cais dros y ddwy neu dair blynedd nesaf ar gyfer cynllun mawr sydd ei angen yn y dyfodol.
- Heol Ynyshir - Gwaith Leinio Strwythurol ac Adsefydlu Rhwydwaith Cwlfert Cwrs Dŵr Cyffredin (£90k)
- Teras y Waun (Cilfach Ganolog)
- Dyluniad yn Unig - Uwchraddio cwlfert i liniaru effaith rhwystr malurion - Adfer Ymylon £40k

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

4) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A S Fox i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Thai, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, B Harris:**

*"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ar gynllun Grant Cymunedol newydd RhCT os gwelwch yn dda?"*

***Ymateb y Cynghorydd B. Harris:***

Dywedodd y Cynghorydd Harris fod rhaglen Grant Cymunedol RhCT - Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU wedi agor ar 1 Chwefror a bod sesiynau gwybodaeth wedi'u trefnu gan Interlink ar gyfer sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid refeniw hyd at £14,999. Ychwanegodd fod angen i'r prosiectau gefnogi nodau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y mannau hynny lle maen nhw wedi'u colli.

Darparodd y Cynghorydd Harris wybodaeth am fanylion y rownd gyntaf a ddaeth i ben ar 24 Chwefror (28 Chwefror oedd y dyddiad cau gwreiddiol ond roedd rhaid cau'n gynnar ar ôl i ormod o geisiadau ddod i law). Cafodd 91 o geisiadau eu cymeradwyo, gan olygu bod y refeniw llawn o £675,000 o fudd i gymunedau Rhondda Cynon Taf. Darparodd y Cynghorydd Harris ddadansoddiad o'r rownd gyntaf - cafodd 133 o geisiadau eu hasesu a 91 o geisiadau eu cymeradwyo. Cafodd yr holl arian refeniw (£675,000) ei ddyrannu a chafodd 42 cais eu gwrthod.

Dywedodd y Cynghorydd Harris fod swm bach o arian cyfalaf wedi'i ddarparu i Drosglwyddo Asedau Cymunedol hanesyddol yn ystod blwyddyn un a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl gronfeydd refeniw a chyfalaf gael eu dosbarthu a chyflawni prosiectau erbyn 31 Mawrth 2023. Bydd modd ymgeisio am yr ail rownd o gyllid o 1 Ebrill 2023 ymlaen, a bydd sesiynau gwybodaeth yn cael eu cynnal ar-lein ar 17 a 20 Mawrth. Mae'r modd cadw

lle yn y sesiynau yma ar wefan Interlink. Eglurodd y bydd y cynllun ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol nesaf yn dosbarthu cyllid refeniw yn bennaf, gyda swm bach o arian cyfalaf.

Dywedodd y Cynghorydd Harris y bydd gwybodaeth ar gyfer gwneud cais yn y rownd nesaf ar gael ar wefan y Cyngor yn fuan. Erbyn diwedd mis Mawrth 2025, bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Grant Cymunedol RhCT wedi buddsoddi £4.3 miliwn er budd cynaliadwyedd grwpiau cymunedol lleol.

Cydnabu'r Cynghorydd Harris y rhwystredigaethau ynghylch yr oedi wrth ddarparu'r cyllid, gan ddweud bod hyn oherwydd trafferthion fewn y Blaid Geidwadol a'r Llywodraeth, ond cadarnhaodd fod y Cyngor o'r diwedd yn gallu dosbarthu'r cyllid. Anogodd y sefydliadau hynny a fydd naill ai heb gael y cyfle i gyflwyno eu ceisiadau neu angen cryfhau cynigion aflwyddiannus y maent wedi'u gwneud, i ailymgeisio unwaith y bydd rowndiau nesaf y cynllun ar agor.

I gloi, diolchodd y Cynghorydd Harris i'r staff a gymerodd ran am eu gwaith heriol yn asesu a phrosesu'r dyraniadau yma.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

5) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Tomkinson i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

"*A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet roi diweddariad ar wasanaeth Hamdden am Oes y Cyngor wrth i ni barhau i symud oddi wrth y pandemig COVID-19?"*

**Ymateb y Cynghorydd A Crimmings:**

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings, yn dilyn llacio'r rheoliadau COVID-19 ym mis Mai 2021, bod aelodaeth gwasanaeth Hamdden y Cyngor wedi gweld cwymp o 50% i ychydig o dan 5,000 o aelodau o gymharu â'r cyfnod cyn-COVID. Yn ogystal â hynny, gwelwyd cwymp aruthrol yn y niferoedd oedd yn ymgymryd â gwersi nofio, defnyddio'r safleoedd yn rhan o glwb, ac yn cadw ystafelloedd, sy'n dangos effaith cyfyngiadau COVID ar drigolion.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod yna amharodrwydd cyffredinol i ddychwelyd i ddechrau i fathau o ymarfer corff dan do gan fod pobl yn naturiol yn dal i fod yn ofalus o ran dal y feirws. Yn ystod y cyfnod yma, fodd bynnag, buddsoddodd yr Awdurdod mewn offer a dosbarthiadau ymarfer corff awyr agored i helpu i geisio meithrin hyder cwsmeriaid a'u denu yn ôl. Yn ogystal â hynny, ym mis Ionawr 2022, dynodwyd dau o'r cyfleusterau mawr yn ganolfannau brechu torfol, a effeithiodd yn naturiol ar yr adferiad cyffredinol.

Ers dechrau'r flwyddyn ariannol yma, fodd bynnag, mae rhagor o bobl wedi dychwelyd i weithgarwch hamdden dan do, gyda'r gwasanaeth Hamdden

am Oes bellach â mwy na 10,000 o aelodau. Mae hyn yn rhagori ar nifer yr aelodau yn 2019. Yn ogystal â hynny, mae'r galw am wersi nofio iau wedi tyfu'n sylweddol, gyda thua 3,500 o blant yr wythnos yn cael eu haddysgu i nofio trwy'r rhaglen dysgu nofio iau. Mae clybiau wedi ail-ffurfio ac yn dechrau dychwelyd, yn ogystal â'r galw cynyddol am bartïon plant a chadw ystafelloedd.

Yn ôl yr Adroddiad ar Gyflwr y Diwydiant, sy'n ymwneud â bywyd ar ôl Covid-19 mewn Bwrdeistrefi Sirol ledled Cymru, mae RhCT yn gwella'n gyflymach na llawer o rai eraill. Dymunodd yr Aelod o'r Cabinet ddiolch yn gyhoeddus i'r staff o fewn y Gwasanaeth Hamdden sydd wedi mynd gam ymhellach dros y blynyddoedd diwethaf, gyda llawer yn cynorthwyo yn y frwydr yn erbyn COVID. Mae'r cynnydd yn nifer yr aelodau yn dystiolaeth o'u gwaith caled a'u hymroddiad.

I gloi, amlinellodd y Cynghorydd Crimmings y buddsoddiad o tua £150k yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen i gynyddu maint ei stiwdio ffitrwydd ac adnewyddu'r offer ffitrwydd, mae wedi darparu dau le ymarfer corff ychwanegol ar gyfer cwsmeriaid drwy addasu dwy ystafell (stiwdio Wattbike a ffitrwydd effaith isel). Mae mwy na chant o aelodau newydd wedi ymuno â'r ganolfan, sy'n rhagori ar y rhifau aelodaeth cyn y pandemig. Ychwanegodd fod buddsoddiad hefyd wedi'i wneud ym mhob cyfleuster i helpu i ddiwallu anghenion newidiol cwsmeriaid, gyda pheiriannau Skiergs; Beiciau Ymosodiad; Tanciau; Wattbikes; peiriannau rhedeg a mwy o bwysau rhydd.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol oherwydd bod yr amser a neilltuwyd wedi dod i ben.**

(**Noder:** Cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud mewn perthynas ag eitem 5 ar yr agenda, Cwestiynau'r Aelodau:

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards - "Cyfeirir at fy nghyflogwr yn ymateb yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant (cwestiwn 4)"

Cynghorydd y fwrdeistref Sirol K Johnson - "Cyfeirir at fy nghyflogwr, Trafnidiaeth Cymru, yn y cwestiwn ategol (cwestiwn 2)")

## 85 Rhaglen Waith Y Cyngor 2022-2023

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiweddariad mewn perthynas â Rhaglen Waith y Cyngor sydd wedi'i mabwysiadu a'i chyhoeddi. Nododd, yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor, y bydd cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn cael ei gynnal ar 29 Mawrth am 4pm er mwyn croesawu Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu. Ychwanegodd y bydd cyfarfod y Cyngor Llawn ar 29 Mawrth am 5pm yn cynnwys Trafodaeth ar Sefyllfa'r Fwrdeistref Sirol (sef Dadl yr Arweinydd). Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd yr Arweinydd, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, yn penderfynu ar drefniadau ei ddadl. Bydd manylion y cyfarfod yn cael eu hanfon

at bob Aelod maes o law.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth na fydd cyfarfod y Cyngor yn cael ei gynnal ym mis Ebrill cyn i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai.

**86 Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a amlinellodd drefniadau etholiadau llywodraeth leol yn y dyfodol, a hynny mewn ymateb i'r pwerau sydd newydd ddechrau i awdurdodau lleol newid eu system bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Ceisiodd gyfarwyddyd y Cyngor mewn perthynas â threfniadau pleidleisio yn y dyfodol.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y cafodd y mecanwaith yma ei gyflwyno'n rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('y Ddeddf') er mwyn i awdurdodau lleol newid eu system bleidleisio'n rhan o agenda diwygio democratiaeth Llywodraeth Cymru. Bydd cynghorau yng Nghymru yn parhau i ddefnyddio'r system mwyafrif syml, sef y system 'cyntaf i'r felin', oni bai eu bod nhw'n penderfynu newid eu system bleidleisio i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth os bydd Aelodau'n dymuno diwygio'r trefniadau pleidleisio yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2027, bydd raid dilyn proses benodol sy'n cynnwys gwaith ymgysylltu ac ymgynghori sylweddol â'r cyhoedd. Ychwanegodd fod y canllawiau wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn gwneud penderfyniad terfynol, byddai gofyn am fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cyngor Llawn (50 neu ragor o Aelodau'r Cyngor yma). Byddai angen penderfynu mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor gyda rhybudd ysgrifenedig o leiaf 21 diwrnod cyn y cyfarfod, a byddai angen i'r penderfyniad gael ei basio erbyn 15 Tachwedd 2024.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod y byddai gofyn i Gynghorau sydd am newid i'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ddefnyddio'r system am ddwy rownd o etholiadau cyffredin cyn penderfynu dychwelyd i'w system bleidleisio flaenorol, pe bydden nhw'n dymuno gwneud hynny. Gorffennodd trwy ddweud bod gofyniad i roi gwybod i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol os bydd unrhyw newidiadau i'r system bleidleisio.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar yr opsiwn i newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, **PENDERFYNWYD**:

1. Nad yw'r Cyngor yn newid ei system bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy a'i fod yn cadw ei system 'y cyntaf i'r felin' bresennol.

(**Nodwch:** Roedd y Cynghorwyr C Lisles a D Williams am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio nad yw'r Cyngor yn newid ei system bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy a'i fod yn cadw ei system 'y cyntaf i'r felin' bresennol:

Roedd y Cynghorwyr canlynol am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio o blaid yr opsiwn i newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, gydag ymgynghoriad yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gynnig i newid system bleidleisio'r Cyngor i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy:
Y Cynghorwyr K Morgan, A Rogers, A Ellis, D Wood, K Johnson, D Grehan, H Gronow, P

Evans, M Powell a S Trask).

## 87 STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2023/24

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen y Strategaeth Gyllideb a argymhellir gan y Cabinet ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y strategaeth wedi bod yn destun ail gam ymgynghori a gafodd ei gynnal rhwng 24 Ionawr a 6 Chwefror. Roedd y gwaith ymgysylltu yma'n cynnwys Grŵp Cynghori Pobl Hŷn, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cyngor, Fforwm Cyllideb Ysgolion a'r Cydbwyllgor Ymgynghori. Mae adborth proses ymgynghori cam dau wedi'i atodi i'r adroddiad.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod bod y strategaeth wedi'i seilio ar bwysau blwyddyn gyfredol rhagamcanol, sef dros £21 miliwn, a bwlch yn y gyllideb, sef £38.3 miliwn, fel y nodwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2022. Roedd y setliad llywodraeth leol terfynol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Chwefror 2023 yn cynnwys trosglwyddo grant pensiwn y Gwasanaeth Tân i mewn, oedd wedi'i ddisgwyl, gyda diweddariad pellach yn arwain at £10k ychwanegol o'i gymharu â'r setliad dros dro. Ychwanegodd fod y setliad terfynol wedi cadarnhau cynnydd yn y cyllid ar gyfer y Cyngor yma (6.6%) y flwyddyn nesaf, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (7.9%). Darparodd lefel setliad Cymru gyfan ddangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, sef 3.1%.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod am benawdau allweddol y strategaeth gyllideb:

- Cynnydd yn nhreth y cyngor (3.9%) fydd yn cyfrannu £1.8 miliwn at y bwlch yn y gyllideb, o'i gymharu â'r model yn y cynllun ariannol tymor canolig. Mae'r cynnydd yma'n cyfateb i gynnydd o 78c yr wythnos ar gyfer rhywun sy'n byw mewn eiddo Band A, a £1.17 ar gyfer rhywun sy'n byw mewn eiddo Band D;

- Cynnydd arfaethedig yng nghyllideb ysgolion, sef £13.7 miliwn neu 7.9%;

- Mesurau ac arbedion effeithlonrwydd lleihau'r gyllideb gwerth £16 miliwn sydd ag ychydig neu ddim effaith ar ein gwasanaethau rheng flaen;

- Arbedion gwerth £7.3 miliwn o ganlyniad i benderfyniadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan y Cabinet a'r Cyngor fel y bo'n briodol, sy'n ymwneud â gwasanaethau gwastraff, prydau yn y gymuned, darpariaeth meithrinfeydd y Cyngor, cyfalafu a ffïoedd a thaliadau o ganlyniad i gyflwyno premiwm treth y cyngor a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn mis Ionawr;

- Cyfraniad arfaethedig o £5 miliwn o gronfeydd wrth gefn tuag at y cynnydd yng nghostau ynni, sy'n golygu mai'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb yw £4.105 miliwn. Mae modd mantoli hyn trwy gyfraniad o gronfeydd cyllid pontio wrth gefn er mwyn darparu cyllideb sy'n fantoledig ac yn gadarn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gorffennodd y Cyfarwyddwr Cyfadran trwy ddweud ei bod yn bwysig i'r Cyngor ganolbwyntio ar gynllunio tymor canolig gyda'r lefel setliad ddangosol mewn blynyddoedd dilynol ar 3.1%.

Yn dilyn trafodaeth a sylwadau gan Arweinwyr y Grwpiau ac Aelodau eraill, cynhaliwyd pleidlais a **PHENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (Rebecca Evans AS) a'r tabl ar setliad llywodraeth leol terfynol 2023/24, yn Atodiad 1;

2. Nodi'r goblygiadau i'r Cyngor a'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb fel sydd wedi'i nodi yn adran 5;

3. Cytuno ar gynnydd o 3.90% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/24;

4. Cytuno ar y cynnydd yng Nghyllideb Grynswth yr Ysgolion fel sydd wedi'i nodi yn adran 8;

5. Cytuno ar gynigion y strategaeth gyllideb fel sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 10.2 i 10.8;

6. Cytuno i ddefnyddio'r 'Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig' fel arian pontio, sef cyfanswm o £4.105 miliwn ar gyfer 2023/24;

7. Cymeradwyo Tablau 4 a 5 yn Adran 13 yr adroddiad yn sail ar gyfer dyrannu adnoddau i Gyllidebau Ysgolion Unigol, i Wasanaethau eraill y Cyngor, ac i fodloni gofynion ariannu corfforaethol y Cyngor; a

8. Cytuno ar gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2023/24 o £609.955 miliwn, er mwyn cymeradwyo'r penderfyniadau statudol angenrheidiol o ran pennu Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn y terfyn amser statudol, sef 11 Mawrth 2023.

**88 PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR 2023/24**

Yn unol â'r strategaeth gyllideb, cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen yr adroddiad sy'n cynrychioli'r gofyniad ffurfiol a chyfreithiol i'r Cyngor gytuno ar benderfyniad treth y cyngor. Mae'n cynnwys manylion treth y cyngor sydd i'w godi ar gyfer Cynghorau Cymuned a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyfadran mai lefel y Cyngor o ran treth y Cyngor y flwyddyn nesaf ar gyfer eiddo Band D fydd £1,614.11, sef cynnydd o 3.9%. Treth y cyngor Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fydd £324.47, sef cynnydd o 7.4%. Cadarnhaodd fod y Cynghorau Cymuned wedi rhoi gwybod i'r Cyngor am eu lefelau taliadau ar gyfer y flwyddyn nesaf sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

I gloi, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod bod ganddo ddyletswydd i roi gwybod i'r Cyngor am gadernid amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd ariannol arfaethedig sydd wedi'u nodi yn adran 9 yr adroddiad.

Yn dilyn trafod yr adroddiad, ac yn unol â'r Gyllideb Refeniw y cytunwyd arni'n flaenorol, **PENDERFYNWYD**:

i) Nodi lefel y praesept gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar

gyfer De Cymru;

ii) Nodi lefel Praeseptau y Cyngor Cymuned, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1;

iii) Pasio'r penderfyniadau ffurfiol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 2024, fel sydd i'w gweld yn Atodiad 2;

Nodi sylwadau Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen am gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd ariannol arfaethedig sydd i'w gweld ym mharagraff 9.2.

**89 RHAGLEN GYFALAF 2023/24 – 2025/26**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen yr adroddiad sy'n nodi Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2023/24 tan 2025/26 er mwyn i'r Cyngor ei thrafod, a hynny'n dilyn derbyn y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2023/24.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod hyn yn cynrychioli rhaglen fuddsoddi gwerth £187 miliwn dros y tair blynedd nesaf sy'n cynnwys buddsoddiad ychwanegol gwerth £7.1 miliwn ar ben y rhaglen barhaus, rhaglen ar y cyd gwerth £42 miliwn, grantiau penodol gwerth £73 miliwn a chyllid y Cyngor gwerth £31 miliwn tuag at bob blaenoriaeth buddsoddi. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran at y buddsoddiad ychwanegol wedi'i dargedu gwerth £7.1 miliwn sydd wedi'i gynnig ar gyfer meysydd cynnal a chadw priffyrdd, ffyrdd heb eu mabwysiadu, strwythurau priffyrdd, draenio, strwythurau parciau, parciau a mannau gwyrdd, meysydd chwarae ac ardaloedd gemau aml-ddefnydd, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 2 yr adroddiad.

Gorffennodd y Cyfarwyddwr Cyfadran trwy dynnu sylw Aelodau at y rhaglen lawn yn adran 7 yr adroddiad gyda'r manylion i'w gweld yn Atodiadau 3A-3D a'r amserlen ariannau lawn yn Atodiad 3E.

Yn dilyn trafodaeth lle atebodd y Cyfarwyddwr Cyfadran nifer o gwestiynau, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi manylion setliad llywodraeth leol terfynol 2023/24 ar gyfer gwariant cyfalaf, yn Atodiad 1;

2. Cytuno ar y broses ailddyrannu arfaethedig o adnoddau presennol, a dyrannu adnoddau newydd, fel y nodir ym mharagraff 5;

3. Cytuno i ddyrannu'r cyllid wedi'i nodi yn yr adroddiad ar gyfer y blaenoriaethau buddsoddi fel y nodir ym mharagraff 6.2;

4. Cytuno ar y rhaglen tair blynedd ‘graidd’ arfaethedig, yn Atodiad 2;

5. Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig gyfan, yn Atodiad 3 (a) i (e), sy'n cynnwys y cyllid nad yw'n gyllid craidd:

- Benthyca darbodus i gefnogi Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif yn flaenorol) a Chynlluniau Gwella Priffyrdd;
- Grantiau cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol;
- Cyfraniadau trydydd parti;
- Blaenoriaethau buddsoddi sydd wedi'u nodi ym mharagraff 6.2.

(**Nodwch:** Cyn trafod yr eitem, datganodd y Cynghorwyr S Trask a K Johnson fuddiant personol:

Y Cynghorydd S Trask – “Rydw i'n Llywodraethwr Ysgol Gynradd Maes-y-bryn, sy'n derbyn cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif”

Y Cynghorydd K Johnson - “Rydw i'n Llywodraethwr Ysgol Gynradd Maes-y-bryn, sy'n derbyn cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif”).

**90 Rhybudd o Gynnig**

**A. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi’i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol** J. Edwards, L. A. Tomkinson, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. A. Elliott, L. Ellis, S. Emanuel, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan OBE, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts MBE, J. Smith, G. Stacey, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn parhau i gynrychioli un o'r heriau mwyaf difrifol y mae cymunedau ledled Rhondda Cynon Taf, Cymru, y DU a'r byd, yn ei hwynebu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi gweld digwyddiadau tywydd difrifol ac arwyddocaol yn fwy aml, gan arwain at effaith fwy dwys, fel y difrod sylweddol a achoswyd yn lleol gan Storm Dennis ym mis Chwefror 2020. Ers hynny, rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer y rhybuddion tywydd melyn, ambr a choch sy'n cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Dywydd.

Yn wir, mae'r daroganwr tywydd wedi cadarnhau'n ddiweddar mai 2022 oedd y flwyddyn boethaf a gofnodwyd yn y DU. Am y tro cyntaf erioed, cafodd tymheredd o dros 10°C, ar gyfartaledd, ei gofnodi. Dangosodd yr astudiaeth briodoli fod tymheredd blynyddol a fyddai wedi digwydd unwaith ym mhob 500 o flynyddoedd mewn hinsawdd naturiol, a hynny heb ddylanwad pobl ar yr hinsawdd, bellach yn debygol o ddigwydd bob tair i bedair blynedd yn yr hinsawdd bresennol. Yn ogystal â hyn, mae rhagolygon y Swyddfa Dywydd yn awgrymu y bydd 2023 yn un o flynyddoedd poethaf y ddaear i gael ei chofnodi.

O ganlyniad i'r dystiolaeth yma, does dim amheuaeth o ran pa mor gyflym y mae angen newid er mwyn lleihau allyriadau carbon i amddiffyn y blaned, neu'r angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd yn fwy cyflym i wneud hynny.

Mae'r Cyngor yma eisoes wedi dangos ymrwymiad cadarnhaol i fodloni targedau byd-eang, cenedlaethol a lleol i leihau carbon, a chyfrannu atyn nhw.

Ym mis Mawrth 2018, penderfynodd y Cyngor fabwysiadu Rhybudd o Gynnig gan ymrwymo i gefnogi Ymrwymiad Ynni Glân UK100 er mwyn symud tuag at fod yn Awdurdod sy'n gwbl gyfrifol yn amgylcheddol erbyn 2050. Yn fuan ar ôl hynny, cafodd yr ymrwymiad yma ei ddiwygio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 er mwyn cydnabod yr angen dybryd i fynd i'r afael ag effaith y newid yn yr hinsawdd ar frys.

Dros y rhyw ddeng mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camau sylweddol tuag at y targed yma, ac mae'r gwaith yma wedi cyflymu dros y pum mlynedd ddiwethaf. Hyd at 2019, roedd y Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gostyngiad o tua 40% yn ei allyriadau carbon (12,725 tunnell) dros y pum mlynedd ddiwethaf. Amlygodd adroddiad diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Garbon (yn seiliedig ar gyfrifo cywir ar y pryd) fod Cyngor RhCT wedi sicrhau gostyngiad pellach o 29% yn ei ôl troed carbon NET cyffredinol yn 2020/21, o gymharu â data o 2019/20.

Mae mesurau hyd yn hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod 100% o gyflenwad ynni trydanol y Cyngor yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy.

- Gwario dros £9 miliwn ers 2009 ar brosiectau arbed ynni sydd wedi arwain at ychydig dros £1.8 miliwn mewn arbedion blynyddol ar gyfer ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden ac adeiladau eraill y Cyngor.

- Gosod 105 o baneli solar mewn ysgolion ac adeiladau corfforaethol – mae hyn yn cynhyrchu tua £120,000 o "arian yn ôl" bob blwyddyn am 20 mlynedd, yn ogystal ag arbedion ar gostau ynni.

- Cwblhau nifer o gynlluniau datblygu a gwella ysgolion carbon isel ac effeithlon o ran ynni ledled y Sir.

- Gosod 21 o gelloedd tanwydd hydrogen mewn canolfannau hamdden, ysgolion a swyddfeydd, yn ogystal â defnyddio 8 boeler biomas.

- Cyflawni prosiect Ffynnon Dwym Ffynnon Taf arloesol – yr unig un yng Nghymru – mae hyn yn darparu gwres carbon isel ar gyfer estyniad newydd Ysgol Gynradd Ffynnon Taf.

- Gweithio gyda Chymdeithasau Tai, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu rhagor o dai carbon isel. Helpu 113 o gartrefi ym Mhenrhiwceiber allan o dlodi tanwydd, trwy gynllun ARBED, gydag ystod o fesurau newydd sy'n effeithlon o ran ynni.

- Datblygu prosiectau trwy blannu coed a rheoli mawnogydd ledled RhCT. Cyhoeddi buddsoddiad o £50,000 mewn plannu coed ym mis Mawrth y llynedd, gyda 200 o coed yn cael eu plannu ym mhob un o brif ardaloedd etholwyr y Sir.

- Cyflawni strategaeth ar gyfer gwefru cerbydau trydan, ynghyd â rhoi prawf ar dacsis a bysiau trydan.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Cynnydd cadarnhaol y Cyngor yma o ran cymryd camau i leihau ei ôl troed carbon.

- Bod angen rhagor o waith i gyflawni'r uchelgeisiau yma, yn unol â Strategaeth Mynd i'r Afael â'r Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor – Hinsawdd Ystyriol RhCT a gweledigaeth Llywodraeth Cymru o fod yn sector cyhoeddus Net Sero erbyn 2030.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Gofyn i adroddiad gael ei gyflwyno i Is-bwyllgor Newid yn yr Hinsawdd Cabinet y Cyngor, yn amlinellu sut y gall y Cyngor ailddatgan yr ymrwymiad hwn i gyflawni sero net yn unol â'r targedau statudol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**B. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol** A. Roberts MBE, J. Bonetto, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, S. Emanuel, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan OBE, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo.

Er gwaethaf y cymorth â chostau byw a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae naw o bob deg o rentwyr preifat yng Nghymru yn dweud bod yr argyfwng costau byw yn ei gwneud hi'n anoddach fyth talu eu rhent (Shelter, 2022).

Er bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i godi budd-daliadau yn unol â chwyddiant, cadarnhaodd Datganiad yr Hydref 2022 fod y Llywodraeth ar fin rhewi'r lwfans tai lleol ar y lefelau arian parod presennol am y drydedd flwyddyn yn olynol. Bydd hyn yn cael effaith ychwanegol ar y rheiny sy'n derbyn budd-daliadau mewn llety rhent preifat, sy'n wynebu costau uwch na'r rheiny mewn tai cymdeithasol.

O ran ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i gefnogi rhentwyr, mae'r Cynnig hwn yn nodi bod Llywodraeth Cymru – yn rhan o'i chytundeb cydweithredu â Phlaid Cymru yn 2021 – wedi ymrwymo i Bapur Gwyn ar fforddiadwyedd rhent, a Phapur Gwyrdd cyn hynny. Bydd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer hawl i dai digonol, sefydlu'r rôl y gallai system o renti teg (rheoli rhenti) ei chwarae o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl

leol ar incwm isel a dulliau newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy.

Mae yna, wrth gwrs, ystod eang o ffactorau sy'n effeithio ar gynnydd yng nghost rhenti yn y sector rhentu preifat ac incwm aelwydydd ar hyn o bryd, a dydy'r Cynnig hwn ddim yn ceisio mynd i'r afael â phob un o'r rhain.

Dydy'r Cynnig hwn ddim yn ceisio tanseilio'r mesurau sydd eisoes ar waith gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rhentwyr y sector rhentu preifat yng Nghymru, gyda chyfres o gyfreithiau tai newydd a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2022 yn rhan o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.

Dydy'r Cynnig hwn ychwaith ddim yn ceisio achub y blaen ar Bapurau Gwyrdd a Gwyn Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer mesurau ychwanegol megis rhewi rhenti, neu sut beth y gallai mesurau ychwanegol fod wrth eu rhoi ar waith. Cafwyd dadl yn y Senedd ar gynigion ar gyfer rhewi rhenti brys a moratoriwm ar droi allan yng Nghymru mor ddiweddar â mis Hydref 2022. Roedd hyn yn dilyn cyflwyno rhewi rhenti dros dro yn yr Alban ym mis Medi 2022 (sydd i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2023). Yn y ddadl yn y Senedd, cafodd nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â pholisi'r Alban eu nodi ar gyfer yr ASau yn rhan o sesiwn wybodaeth gan yr elusen i'r di-gartref Crisis.

Roedd y risgiau a amlinellwyd gan 'Crisis' yn cynnwys:

1. Llif o hysbysiadau i adael ar unwaith a llythyrau yn rhoi gwybod am gynnydd yng nghost rhenti.
2. Ton o achosion o gynnydd yng nghost rhenti a/neu droi allan os na chaiff cyfnod rhewi rhent dros dro a gwaharddiad troi allan eu rheoli'n ofalus.
3. Heriau wrth orfodi'r mesurau arfaethedig.
4. Risg o drigolion yn cael eu gadael mewn cartrefi nad oes modd iddyn nhw eu fforddio, ac ôl-ddyledion rhent yn cronni.
5. Effaith negyddol bosibl ar gyflenwad tai rhent preifat ar gyfer y rheiny sydd ar ben isaf y farchnad, a'u gallu i gael gafael ar y tai yma.
6. Gostyngiad yn y cyflenwad o dai fforddiadwy sydd ar gael i'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd, neu sy'n profi digartrefedd.
7. Pobl ar incwm is yn cael eu hatal rhag bod yn rhan o'r farchnad breifat yn gyfan gwbl yn y tymor hir.
8. Creu'r amodau ar gyfer marchnad rentu 'o dan yr wyneb' i ffynu, sy'n gweithredu y tu hwnt i unrhyw drefn reoleiddio.

Er bod y sesiwn wybodaeth gan Crisis yn gofyn am eglurhad pellach ar sut y mae modd mynd i'r afael â risgiau posibl moratoriwm ar droi allan a rhewi rhenti cyn i fesurau o'r fath gael eu mabwysiadu yng Nghymru (dylai'r adolygiad o bolisi'r Alban a Phapurau Gwyrdd/Gwyn yng Nghymru roi rhywfaint o'r eglurder sydd ei angen yn yr achos yma), mae'r un papur briffio yn cefnogi'r ceisiadau a wneir yn y Cynnig hwn, sef mai'r "ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi pobl ar incwm isel i dalu cost eu rhenti yw drwy Lywodraeth San Steffan yn buddsoddi mewn cyfraddau Lwfans Tai Lleol fel eu bod yn cwmpasu o leiaf traean isaf y rhenti lleol. Dyma hefyd y dull wedi'i dargedu gorau i gael cymorth i'r rheiny sydd ei angen fwyaf."

Mae'r Cynnig hwn yn galw ar Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd Andrew Morgan OBE, i gyflwyno sylwadau i Mel Stride AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, a Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, i gydweithio i

fodloni’r gofynion a ganlyn a wnaed gan Shelter Cymru:

- Adfer budd-daliadau tai i gynnwys o leiaf y 30% isaf o renti lleol; a,

- Dileu'r cap ar fudd-daliadau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(**Nodwch:** Cyn trafod yr eitem, datganodd yr Aelodau canlynol fuddiant personol:

Y Cynghorydd M Powell – “Rydw i'n cynnal gwaith ar gyfer asiantaethau sydd ag eiddo rhent preifat yn eu portffolio”

Y Cynghorydd M Powell – “Mae gyda fi berthynas agos sy'n landlord eiddo rhent preifat”

Y Cynghorydd L Addiscott – “ Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat”

Y Cynghorydd V Dunn – “Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat”

Y Cynghorydd C Middle - “Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat”

Y Cynghorydd M Ashford - “Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat”

Y Cynghorydd W Hughes - “Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat”

Y Cynghorydd A Crimmings - “Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat”

Y Cynghorydd R Williams - “Rydw i'n berchen ar eiddo rhent preifat”

## 91 Materion Brys

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.5, rhoddodd y Llywydd ganiatâd i’r Cyngor Llawn benderfynu a ddylai’r Cynnig Brys hwn:

• Cael ei drafod yn y cyfarfod; neu
• Gohirio'r Cynnig tan y cyfarfod nesaf, i'w drafod gyda mantais cyngor ysgrifenedig gan Swyddogion;
neu
• Ei atgyfeirio i'r Adain Weithredol neu Bwyllgor.

**PENDERFYNWYD** trafod y Rhybudd o Gynnig brys yn y cyfarfod.

## 92 Rhybudd O Gynnig Brys

Trafod y Rhybudd o Gynnig brys canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Emanuel ac W. Jones**:**

Yn anffodus, yr wythnos ddiwethaf cododd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) arwyddion ar lwybr coetir Pen-pych yn rhybuddio cerddwyr nad oedd mynediad i'r cyhoedd gan fod y llwybr yn anniogel oherwydd “tirlithriadau niferus.”

Mae ward Treherbert yn falch o fod yn gartref i rai o'r lleoedd gorau a golygfeydd

harddaf y sir, gyda mynydd pen bwrdd Pen-pych yn goron ar y cyfan.

Mae Pen-Pych yn atyniad mawr i dwristiaid ac yn nodwedd ddaearyddol leol sy’n denu miloedd o gerddwyr bob blwyddyn. Mae hyn yn ei dro yn rhoi hwb amhrisiadwy i’n heconomi leol.

Mae colli’r llwybr hwn yn ddinistriol i’r economi leol a’r cymunedau sy’n rhan o ward Treherbert. A ninnau'n Gynghorwyr lleol, rydyn ni wedi'n siomi na cheisiodd CNC drafod y mater â ni na chwaith roi gwybod i ni cyn cymryd y camau hyn.

Er bod diogelwch trigolion ac ymwelwyr o’r pwys mwyaf, a’i bod yn iawn i rybuddio cerddwyr i beidio â defnyddio llwybrau anniogel, rydyn ni wedi'n siomi â'r diffyg cyfathrebu gan CNC wrth amlinellu unrhyw ymdrechion i wneud y llwybr yn ddiogel neu eu dyheadau ar gyfer yr ardal yn y dyfodol.

A ninnau eisoes wedi cyflwyno sylwadau i CNC yn ein swyddogaeth yn Aelodau lleol, dyma annog y Cyngor i nodi’r canlynol:

- Yr effaith sylweddol y bydd colli Pen-Pych yn ei chael ar yr economi leol ym mhen uchaf Cwm Rhondda Fawr a gweddill y fwrdeistref sirol.

- Bod ein hasedau naturiol yno i bawb eu mwynhau. Maen nhw'n unigryw i'n bwrdeistref sirol ac yn ein gosod ni ar wahân i bawb arall.

- Er bod diogelwch bob amser o'r pwys mwyaf, dylid cynnwys Aelodau lleol yn rhan o faterion o'r fath bob amser lle bo modd.

Dyma ofyn felly i’r Cyngor benderfynu:

- Gofyn ar frys i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru a’r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru i sefydlu beth yw eu dyheadau ar gyfer llwybr coetir Pen-Pych yn y dyfodol a chyflwyno sylwadau ar ran trigolion ward Treherbert ynghylch pwysigrwydd y safle.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig Brys.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**